



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

24 MAI 2023

Adroddiad gan: Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

Pwnc: Adroddiad Blynyddol GwE 2022-23

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2022-2023 i'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Fel y nodir yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaeth o safbwynt cyflawni swyddogaethau a nodau allweddol y gwasanaeth.

2.2 Mae cynnwys yr adroddiad blynyddol yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol rhanbarthol, fel y cytunwyd yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022-2023, gan werthuso'r effaith yn erbyn camau gweithredu a deilliannau am y flwyddyn gyfan.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Amgaeir yr Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol sydd yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol rhanbarthol ar gyfer 2022-2023:

- Cwricwlwm ac Asesu - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.
 - Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion.
-

- Arweinyddiaeth - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Mae hyn yn cynnwys arweinyddiaeth i'r dyfodol a rhwydweithiau proffesiynol.
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymroi i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant.
- Cefnogi system sy'n hunan wella - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson.
- Busnes - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

3.2 Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r meysydd a adnabuwyd fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygiad a gwelliant pellach, sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2023-2024.

3.3 Yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol, caiff pob Awdurdod Lleol adroddiad manwl sydd yn rhoi trosolwg lleol penodol, yn dal cynnydd yn erbyn pum maes allweddol, ac yn adnabod y camau nesaf ar y llwybr tuag at welliant:

- Maes Allweddol 1 - Gwella Arweinyddiaeth
- Maes Allweddol 2 - Gwella'r Dysgu a'r Addysgu
- Maes Allweddol 3 - Cwricwlwm a Darpariaeth
- Maes Allweddol 4 - Cynnydd a Safonau Dysgwyr
- Maes Allweddol 5 - Cymorth a Her i Ysgolion sy'n Destun Pryder

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-2023.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau ar yr adroddiad y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â'r Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2022-23

Data Rhanbarthol

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon fod y diweddariad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.
